Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Asesiad o Berfformiad Clinigol, Canllawiau i Aseswyr ac Ymgeiswyr

# Cynnwys

**Canllawiau i Aseswyr ac Ymgeiswyr 3**

> Cyflwyniad
> Diben yr Asesiad o Berfformiad Clinigol
> Fformat
> Cyfrifoldeb clinigol
> Yswiriant
> Rôl yr Asesydd
> Rôl y Cymedrolwr
> Rôl cynrychiolydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
> Sgwrs cyn yr asesiad
> Cydraddoldeb ac amrywiaeth
> Ymddygiad
> Holi
> Ymarweddiad
> Ymdrin â rhagfarn
> Perfformiad 'ar y dydd'
> Risg
> Gwneud penderfyniadau
> Ysgrifennu adroddiadau

**Atodiad 1 10**

> Rhestr Wirio Safonau Ymarfer Osteopathig

**Atodiad 2 17**

> Ffurflen Werthuso

**Atodiad 3 21**

> Adroddiad Canlyniad

## Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad o Berfformiad Clinigol (yr Asesiad) yn asesu gallu ymgeisydd i gyflawni'r Safonau Ymarfer Osteopathig. Mae'r safonau hyn ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn osteopathy.org.uk ac yn standards.osteopathy.org.uk. Maent yn egluro'r safonau ymddygiad, moeseg a chymhwysedd sydd eu hangen ar osteopathiaid i hyrwyddo iechyd a llesiant cleifion, eu hamddiffyn rhag niwed a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Maent yn darparu fframwaith i helpu i ddarparu gofal osteopathig moesegol, cymwys a diogel.

## Diben yr Asesiad o Berfformiad Clinigol

2. Yr Asesiad o Berfformiad Clinigol yw ail ran yr asesiad sydd ei angen i gofrestru gyda'r Cyngor. Mae'n rhaid cwblhau'r Holiadur Tystiolaeth Bellach o Ymarfer cyn symud ymlaen i'r asesiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan y Cyngor.

## Fformat

3. Fel rhan o'r Asesiad o Berfformiad Clinigol, mae'r ymgeisydd yn rheoli dau glaf newydd mewn lleoliad clinigol dros gyfnod o tua thair awr. Mae hyn yn cynnwys nodi hanes yr achos, cyflawni unrhyw archwiliadau gofynnol a rhoi triniaeth briodol (neu atgyfeirio).
4. Cyn dechrau'r Asesiad, bydd holl aelodau'r tîm asesu’n derbyn crynodeb o'r asesiad o gais Tystiolaeth Bellach o Ymarfer yr ymgeisydd.
5. Gellir asesu uchafswm o bedwar ymgeisydd mewn diwrnod; dau yn y bore a dau yn y prynhawn.
6. Mae'r tîm asesu’n cynnwys dau asesydd ac un cymedrolwr. Maen nhw'n derbyn cymorth gan gynrychiolydd y Cyngor, sy'n gweithredu mewn swyddogaeth weinyddol yn unig ac nad yw’n cymryd rhan yn yr Asesiad.
7. Bydd pob asesydd yn arsylwi ar yr ymgeisydd gydag un claf, a bydd y cymedrolwr yn samplu’r holl gleifion.
8. Bydd yr asesydd a'r cymedrolwr yn holi'r ymgeisydd mewn ystafell ar wahân ar ôl iddo roi gwybod am hanes yr achos a chwblhau archwiliad clinigol.
9. Ar ôl i'r ymgeisydd weld y ddau glaf, bydd y tîm asesu dan arweiniad y cymedrolwr yn trafod y canfyddiadau ac yn dod i gytundeb consensws ynglŷn ag a yw'r ymgeisydd wedi llwyddo yn yr asesiad neu wedi methu.
10. Mae ffurflen werthuso ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r asesiadau wedi'i hatodi yn Atodiad 2. Ategir hyn gan restr wirio ar gyfer arweiniad yn Atodiad 1.

## Cyfrifoldeb clinigol

11. Mae tîm asesu'r Cyngor yn cynnwys dau asesydd ac un cymedrolwr, ac mae gan y tîm hwn gyfrifoldeb clinigol am y cleifion sy'n cael eu gweld/eu trin gan yr ymgeiswyr maen nhw’n eu hasesu.
12. Rhaid i un aelod o'r tîm asesu fod yn bresennol i arsylwi ar yr ymgeisydd gyda'r cleifion bob amser er mwyn arfer cyfrifoldeb clinigol, a rhaid i'r cyfrifoldeb hwn fod yn glir i bob parti.
13. Bydd aseswyr a chymedrolwyr yn ceisio osgoi ymyrraeth ormodol. Yn ogystal â bod yn bresennol i arsylwi ar yr ymgeisydd, mae'n bosibl y bydd angen i aseswyr neu gymedrolwyr siarad â'r claf yn annibynnol ar yr ymgeisydd er mwyn cwmpasu pob agwedd ar gyfrifoldeb clinigol.
14. Mae agweddau allweddol cyfrifoldeb clinigol yn cynnwys:
    - Mae'r claf yn deall cynnwys a dull gweithredu'r sesiwn.
    - Mae disgwyliadau cleifion o'r sesiwn yn cael eu deall.
    - Mae'r claf yn ymwybodol o sut i leisio pryderon a gwneud cwynion.
    - Mae'r claf yn rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth drwy gydol y sesiwn.
    - Mae'r claf yn deall beth yw ei gamau nesaf (yn ymwneud â chamau dilynol, triniaeth, atgyfeirio ac ôl-ofal).

- Mae'r claf yn cael cynnig copi o'i nodiadau o'r sesiwn. (Bydd y nodiadau gwreiddiol yn cael eu cadw yn y clinig. Bydd y Cyngor yn cadw copi o'r wybodaeth am y claf sydd wedi'i golygu).
- Mae gan aseswyr a/neu gymedrolwyr ddyletswydd i ymyrryd ac atal y sesiwn os yw'r ymgeisydd yn peri risg i'r claf.
- Mae'n rhaid rhoi taflen wybodaeth i'r claf.

## Yswiriant

15. Rhaid i bob asesydd a chymedrolwr fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor a bod ag yswiriant indemniad proffesiynol priodol yn unol â gofynion y Cyngor. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y broses yn cael ei hyswirio ar wahân gan ei yswiriant ei hun.

## Rôl yr Asesydd

16. Rôl yr asesydd yw casglu digon o dystiolaeth i wneud penderfyniad am gymhwysedd clinigol yr ymgeisydd.

17. Bydd pob ymgeisydd yn gweld dau glaf newydd. Bydd un asesydd yn arwain yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r claf newydd cyntaf; bydd yr asesydd arall yn arwain yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r ail glaf newydd. Yn gyffredinol, dim ond dau ymgeisydd fydd yn cael eu hasesu ar unrhyw un adeg oni bai bod y Cyngor wedi cytuno fel arall.

18. Disgwylir i aseswyr gasglu digon o dystiolaeth i wneud gwerthusiad dibynadwy o berfformiad ymgeisydd.

19. Fel arfer, bydd aseswyr yn cael dau brif gyfle i holi'r ymgeisydd yn ystod y cyswllt clinigol â'r claf, ar ôl clywed hanes yr achos ac ar ôl i'r archwiliad clinigol gael ei gwblhau. Fodd bynnag, os oes angen, mae gan yr aseswyr hawl i addasu'r trefniadau hyn gyda chytundeb yr holl bartïon.

20. Bydd ymgeiswyr yn cael eu holi mewn lle dynodedig i ffwrdd o'r ystafell driniaeth ac ni fydd y claf yn bresennol. Rhaid holi'r ymgeisydd yng ngŵydd ail berson, sef y cymedrolwr yn ddelfrydol. Mae'r asesydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cymedrolwr yn bresennol. Mae'n rhaid i aseswyr roi amser i'r ymgeisydd baratoi’n feddyliol cyn dechrau'r cyfnod holi.

21. Bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno crynodeb byr o brif nodweddion hanes yr achos; y casgliad o ddamcaniaethau diagnostig; sail resymegol yr archwiliadau clinigol; arwyddocâd canfyddiadau clinigol yr ymgeisydd a sut maen nhw'n llywio ei gasgliadau diagnostig a'i ddiagnosis osteopathig. Hefyd, bydd y sesiwn holi’n archwilio'r gwaith cynllunio triniaeth a rheoli arfaethedig ac unrhyw fesurau hunanofal penodol i'w trafod gyda'r claf wrth reoli ei gŵyn. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod eu diagnosisau gwahaniaethol mewn ffordd benodol a'u bod yn gallu esbonio'r sail resymegol dros eu dewisiadau a sut y byddant yn ceisio gwahaniaethu rhwng achosion posibl wrth gynnal archwiliad.

22. Mewn achosion syml, gall asesydd ofyn ychydig o gwestiynau ‘damcaniaethol’ sy'n gysylltiedig â'r claf er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddangos ehangder ei sylfaen wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd y rhan hon o'r broses holi yn gymharol hir, ond ni ddylai gymryd mwy na 15 munud fel arfer. Dylai aseswyr arsylwi ar sampl o driniaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd er mwyn canfod sut mae'r claf yn ymwneud â'r broses o reoli ei gŵyn.

23. Gall aseswyr ofyn cwestiynau ar adegau eraill i gael eglurhad, ond ni ddylent wneud hyn yn rhy aml, yn enwedig yng ngŵydd y claf neu os yw'r cwestiynau yn amharu ar gynnydd yr ymgeisydd gyda'r ymgynghoriad/triniaeth. Mae'n bwysig nad yw'r holi’n amharu ar lesiant y claf. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r ymgeisydd a'r aseswyr bob amser.

24. Rhaid i aseswyr sicrhau eu bod yn cofnodi unrhyw ganfyddiadau yn ystod y cyfnodau arsylwi a holi. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wedyn i lywio gwerthusiad yr ymgeisydd yn ystod y broses gymedroli. Os yw'r ymgeisydd neu'r aseswyr yn wynebu unrhyw broblemau ar unrhyw adeg, neu os ydynt yn dymuno cael eglurhad, gallant siarad â’r cymedrolwr neu gynrychiolydd y Cyngor.

# Rôl y Cymedrolwr

25. Rôl y cymedrolwr yw sicrhau bod aseswyr sy'n aelodau o'r tîm yn dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth am gymhwysedd clinigol pob ymgeisydd sy'n cael ei asesu. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddynt gasglu tystiolaeth yn yr un modd ag aseswyr i'w galluogi i nodi meysydd y gallai aseswyr fod wedi'u methu, a'u cynnwys wedyn i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o berfformiad yr ymgeisydd wrth gymedroli penderfyniadau'r aseswyr.

26. Mae rôl y cymedrolwr yn cynnwys y canlynol hefyd:
    - gweithredu fel eiriolwr yr ymgeisydd i sicrhau proses asesu deg i'r ymgeisydd a sicrhau nad oes unrhyw holi llym neu annheg gan yr aseswyr;
    - sicrhau bod aseswyr yn asesu yn erbyn Safonau Ymarfer Osteopathig y Cyngor ac nid yn erbyn eu meini prawf personol eu hunain;
    - hwyluso trafodaeth rhwng aseswyr yn ystod cyfarfodydd cymedroli ac yn ystod yr Asesiad o Berfformiad Clinigol, os oes angen;
    - samplu rhyngweithiad yr aseswyr â'r ymgeisydd, gan ofyn cwestiynau ychwanegol os oes angen, ond peidio â chynnal eu hasesiad ar wahân eu hunain o'r ymgeisydd, er mwyn llunio eu gwerthusiad.

27. Bydd gan gymedrolwr lai o amser i'w dreulio gyda phob ymgeisydd a rhaid iddo ddyrannu amser yn ofalus er mwyn asesu cymhwysedd clinigol pob ymgeisydd.

28. Hefyd, bydd y cymedrolwr yn gyfrifol am weinyddu'r tîm asesu, gan gynnwys:
    - dyrannu aseswyr i ymgeiswyr;
    - sicrhau bod yr asesiadau'n cydymffurfio â therfynau amser;
    - cynnal cyfarfodydd cymedroli;
    - gwneud penderfyniadau'n ymwneud â newidiadau gweithdrefnol;
    - sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu cwblhau ar y diwrnod neu yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt lle bo angen;
    - sicrhau bod pob aelod o'r tîm asesu wedi adolygu gwerthusiad yr holiadur hunanasesu;
    - crynhoi unrhyw feysydd sydd angen eu harchwilio.

## Rôl Cynrychiolydd y Cyngor

29. Rôl cynrychiolydd y Cyngor yw cynorthwyo'r aseswyr a'r cymedrolwr i gyflawni eu swyddogaethau. Nid oes gan gynrychiolydd y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb clinigol.

30. Bydd cynrychiolydd y Cyngor yn gwneud y canlynol:
    - gwneud trefniadau ar gyfer dyrannu ymgeiswyr a chleifion;
    - darparu'r holl ffurflenni a gwybodaeth angenrheidiol i aseswyr yn ystod yr asesiad;
    - paratoi ystafelloedd y clinig cyn yr asesiad, gan gynnwys pob cais arbennig gan ymgeiswyr;
    - cyfarch pob ymgeisydd a'u hebrwng i ystafell y clinig;
    - croesawu cleifion wrth iddynt gyrraedd;
    - hebrwng cleifion i ystafell y clinig ar yr adeg briodol;
    - cyflwyno cleifion i'r tîm asesu ac i'r ymgeisydd ar yr adegau priodol;
    - bod yn bresennol yn y sesiwn holi ar ôl cofnodi hanes yr achos a chwblhau'r archwiliad, a chymryd nodiadau ar y drafodaeth;
    - hebrwng y cleifion yn ôl i'r dderbynfa;
    - hebrwng yr ymgeisydd o'r ystafell ar ddiwedd y broses;
    - arsylwi ar y sesiynau cymedroli ar gyfer pob ymgeisydd;
    - gwneud trefniadau cinio a lluniaeth ar gyfer aseswyr ac ymgeiswyr;
    - sicrhau bod gweithdrefn ar waith i drefnu bod claf arall ar gael os nad yw'r claf gwreiddiol yn mynychu ar ddiwrnod yr Asesiad o Berfformiad Clinigol. Fel arall, gwneud trefniadau i ymgeisydd gwblhau asesiad voce viva gyda'r tîm asesu yn ymwneud â senario achos o'i *gais Tystiolaeth Bellach o Ymarfer* neu achosion damcaniaethol;
    - trefnu Asesiad o Berfformiad Clinigol arall pan fydd amgylchiadau eithafol yn golygu ei bod yn afresymol neu'n anymarferol parhau ag asesiad sydd wedi dechrau.

31. Ni ddylai fod unrhyw ryngweithio/trafodaeth rhwng cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd yn ystod yr asesiad, oni bai bod asesydd neu gymedrolwr yn gofyn yn benodol am hynny.

## Sgwrs cyn yr asesiad

32. Tua 10-15 munud cyn dechrau'r asesiad, dylai'r tîm asesu gyflwyno eu hunain i'r ymgeisydd, esbonio'r broses ac egluro unrhyw faterion, megis nodi anghenion arbennig.

33. Dylid pwysleisio'r gofynion canlynol i'r ymgeiswyr:
    - Canolbwyntio ar ofal cleifion, cyfathrebu da, datblygu perthynas â chleifion ac ymddwyn mewn modd proffesiynol a moesegol drwy gydol yr Asesiad o Berfformiad Clinigol;
    - Dangos eu sgiliau rhesymu drwy gydol y broses a chyfiawnhau penderfyniadau sydd wedi'u gwneud;
    - Gweithredu'n unol â'r amserlen a darparu triniaeth, lle bo hynny'n briodol;
    - Bydd ganddynt ychydig funudau i baratoi'n feddyliol cyn gwneud cyflwyniad i'r aseswyr (a dylent hysbysu'r tîm asesu os ydynt yn bwriadu gwneud hyn);
    - Trafod y diagnosis cyn dechrau rhoi triniaeth;
    - Gofyn i'r tîm asesu aralleirio cwestiynau os nad ydynt yn eu deall;
    - Gofyn am drafod materion sensitif y tu allan i'r ystafell driniaeth os ydynt yn teimlo y bydd gwneud hyn er budd pennaf y claf;
    - Esbonio'r sail resymegol dros eu penderfyniadau, gan ddefnyddio gwybodaeth anatomegol, ffisiolegol ac osteopathig berthnasol;
    - Gweithredu mewn ffordd gywir a phenodol wrth roi eu diagnosisau gwahaniaethol (er enghraifft, peidio â dweud 'problem gyda'r coludd yw hon')
    - Defnyddio terminoleg mewn ffordd gywir a chydnabod yr angen i ddefnyddio termau technegol gydag aseswyr, ond defnyddio termau lleyg wrth esbonio materion i gleifion.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

34. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a mynediad cyfartal i'r proffesiwn osteopathig. Felly, mae'n cefnogi dull cynhwysol o ymdrin ag ymgeiswyr sydd ag anghenion penodol.

35. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am hysbysu'r Cyngor am unrhyw anghenion penodol adeg gwneud y cais, ac am ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r anghenion hyn gan awdurdod addas. Dylai hyn gynnwys pa newidiadau, addasiadau neu drefniadau y mae angen eu gwneud. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r ymgeisydd er mwyn ceisio bodloni'r gofynion hyn. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r aseswyr am y trefniadau hyn.

36. Wrth wneud eu hasesiadau, dylai'r aseswyr sicrhau nad yw eu credoau na'u safbwyntiau personol yn effeithio ar eu penderfyniad; rhywedd, tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol, diwylliannol a gwleidyddol, anableddau corfforol neu ofynion yr ymgeisydd am addasiadau rhesymol.

## Ymddygiad

37. Mae'n bwysig bod aseswyr yn ymwybodol o'r angen i ymddwyn mewn modd proffesiynol a thu hwnt i amheuaeth. Dylai aseswyr fod yn ymwybodol o sut y gallai eu hymarweddiad, eu gweithredoedd a'u geiriau gael eu gweld, a chymryd gofal mawr yn y cyswllt hwn. Yn benodol, dylent osgoi mathau o ymddygiad y gellid eu dehongli fel ymddygiad anghwrtais, gwahaniaethol neu ymosodol, sy'n debygol o danseilio eu huniondeb ac uniondeb y broses asesu. Ni ddylai defnydd amhriodol o ffonau symudol ymyrryd â'r asesiad.

38. Ni ddylai aseswyr drafod canfyddiadau eu gwerthusiad, yn nhermau proffil cymhwysedd yr ymgeisydd, tra bod y broses arholi ar waith.

39. Caniateir trafodaeth rhwng aseswyr am unrhyw feysydd cymhwysedd lle nad yw'r asesydd arweiniol wedi gallu canfod tystiolaeth ddigonol i fod yn sylfaen i'w werthusiad. Rhaid sicrhau mai diben y drafodaeth hon yw llunio strategaeth i ganfod rhagor o dystiolaeth fel sylfaen i wneud penderfyniad, yn hytrach na thrafod unrhyw fater yn ymwneud â chymhwysedd myfyrwyr. Rhaid i'r drafodaeth gynnwys y cymedrolwr.

# Holi

40. Nod y broses holi yw galluogi aseswyr i arsylwi ar berfformiad clinigol yr ymgeisydd, a chwilio am dystiolaeth o'r sail resymegol ar gyfer ei weithredoedd trwy ofyn cwestiynau sy'n berthnasol, yn deg, yn effeithlon ac yn dreiddgar.

41. Mae'n well geirio cwestiynau'n syml ac yn gryno. Gall cwestiynau hir a chymhleth fod yn annifyr a gwastraffu amser. Fel arfer, bydd yn well i'r ymgeisydd os oes un asesydd yn gofyn y rhan fwyaf o'r cwestiynau, a bod yr asesydd arall/cymedrolwr yn ychwanegu cwestiynau atodol os oes angen. Mae'n bwysig bod cwestiynau'n berthnasol yn glinigol ac nad ydynt yn canolbwyntio ar hoff bwnc asesydd penodol. Mae angen gofyn cwestiynau sy'n samplu sylfaen wybodaeth a sgiliau rhesymu clinigol sylfaenol yr ymgeisydd, ond nid i'r graddau fel bod hyn yn cael effaith niweidiol ar sut mae'r ymgeisydd yn rheoli ac yn rhyngweithio â'r claf. Mae angen i'r asesiad edrych yn eang ar ymarfer clinigol yr ymgeisydd; mae angen iddo fod yn gytbwys a pheidio â chanolbwyntio'n ormodol ar bwnc penodol.

42. Dylai'r asesydd ofyn cwestiynau sy'n gynyddol heriol ond nid yn ymosodol, gan sicrhau ei fod yn ddigon sensitif i wybod os yw ymgeisydd wedi 'rhewi' oherwydd nerfusrwydd neu ei fod yn ansicr sut i ateb y cwestiynau uniongyrchol. Os yw'n amlwg bod gan ymgeisydd anawsterau wrth geisio ateb cwestiynau, mae'n well rhoi'r gorau i'w holi am y pwnc dan sylw a dychwelyd ato yn nes ymlaen, gan ofyn y cwestiynau mewn ffordd ychydig yn wahanol o bosibl. Os yw'r cyfnod holi uniongyrchol yn mynd yn rhy hir, gallai hyn danseilio hyder yr ymgeisydd ac effeithio ar weddill yr asesiad. Mae hyn yn berthnasol iawn os gofynnir cwestiynau dwys yn gynnar yn yr asesiad cyn i'r ymgeisydd setlo. Yn aml, mae angen datblygu'r sesiwn holi'n raddol, gan ganolbwyntio ar gysyniadau mwy sylfaenol i ddechrau cyn gofyn cwestiynau mwy heriol.

43. Hefyd, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o sut mae ymgeiswyr yn cael eu holi yng ngŵydd eu claf. Os yw natur y cwestiynau'n debygol o beri pryder posibl i'r claf, neu roi'r ymgeisydd mewn sefyllfa anodd, mae'n well bob amser gofyn cwestiynau o'r fath pan nad yw'r claf yn bresennol. Hefyd, dylid annog yr ymgeisydd i ofyn am gael siarad â'r aseswyr y tu allan i'r ystafell os yw'n teimlo y gallai'r materion sy'n cael eu trafod beri gofid i'r claf.

44. Os penderfynir bod angen holi ymgeiswyr yng ngŵydd y claf, mae angen gofalu osgoi tanseilio hyder y claf yn yr ymgeisydd trwy ofyn cwestiynau sy'n rhy hir, yn rhy ymosodol neu sy'n achosi dryswch ac ansicrwydd i'r ymgeisydd.

45. Os yw'n ymddangos nad yw ymgeiswyr yn deall cwestiynau penodol, mae angen eu gofyn eto mewn ffordd wahanol.

46. Mae'n bwysig annog ymgeiswyr i fod yn benodol ac yn gywir wrth ateb cwestiynau, yn enwedig wrth drafod diagnosis gwahaniaethol a'r diagnosis gweithio. Nid yw'n anghyffredin i ymgeiswyr wneud diagnosis amwys, fel 'problem gyhyrol' neu 'broblem y galon', ac mewn achosion o'r fath mae angen i'r asesydd ofyn i'r ymgeisydd egluro'r hyn y mae'n ei ystyried yn fanylach. Mae defnyddio terminoleg yn gywir yn gallu bod yn broblem i ymgeiswyr weithiau, ac mae angen iddynt allu defnyddio termau technegol wrth siarad â'r aseswyr, ond dangos eu bod yn gallu defnyddio termau lleyg wrth roi esboniadau i'r claf.

# Ymarweddiad

47. Gall ymgeiswyr sydd dan straen ymddwyn mewn sawl ffordd wahanol. Mae rhai ymgeiswyr yn mynd yn dawel iawn, mae rhai yn ymddwyn yn ymosodol ac eraill yn cael pwl o banig. Mae angen bod yn sensitif i hyn ac ystyried pam y mae ymgeisydd yn ymateb mewn ffordd benodol. Yn aml, mae modd datrys materion o'r fath trwy leddfu pryderon ymgeiswyr am y broses. Efallai y bydd angen i aseswyr 'anadlu'n ddwfn' a 'chyfrif i ddeg' cyn ymateb yn rhy gryf i ymgeisydd sy'n ymddangos yn ymosodol neu'n ddadleuol i ddechrau. Mae angen parhau i roi cyfle i'r ymgeisydd nes ei bod yn amlwg bod ymddygiad o'r fath wedi para'n rhy hir, ei fod yn afresymol neu ei fod yn amhroffesiynol.

48. Gallai fod yn ddefnyddiol i aseswyr feddwl am eu personoliaeth eu hunain ac ystyried sut y gallai rhai nodweddion ymddangos i ymgeisydd a fydd yn fwy pryderus nag arfer yn aml. Nid ymgais i wneud i aseswyr ymddwyn yn unffurf yw hyn, ond mae'n bwysig cydnabod y potensial i ymgeiswyr gamddehongli ymddygiad mewn sefyllfa lle maen nhw dan straen. Gorau oll os gall aseswyr osgoi sefyllfa lle mae personoliaeth unigolion yn gwrthdaro, felly dylent fabwysiadu, hyd y bo'n rhesymol, agwedd niwtral ond bendant.

49. Mae'n bosibl bod ymgeiswyr sy'n ymddwyn yn swil yn ymateb i straen y sefyllfa hefyd. Dylai aseswyr edrych y tu hwnt i'w hargraffiadau cychwynnol er mwyn gofyn am dystiolaeth o allu ymgeisydd o'r fath. Mae'n anodd i rai pobl ddangos hyder amlwg mewn sefyllfa asesu, ac mae modd ystyried y ffactor hwn.

50. Mae'n bwysig cofio bod aseswyr mewn sefyllfa fwy pwerus o lawer yn ystod yr asesiad. O ganlyniad, mae angen creu'r amodau, hyd y bo'n rhesymol, i ymgeiswyr sydd â phersonoliaethau a dulliau gweithredu gwahanol gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## Ymdrin â rhagfarn

51. Mae angen rhoi sicrwydd i ymgeiswyr bod aseswyr yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o ragfarn bosibl wrth asesu perfformiad unigolyn. Gwerthusir yr Asesiad o Berfformiad Clinigol trwy ystyried perfformiad yr ymgeisydd yn erbyn pob maen prawf (gweler Atodiad 2) yn unigol a thrwy wneud penderfyniad ar bob agwedd.

52. Mae angen i aseswyr fod yn sensitif i'w rhagfarnau a'u rhagdybiaethau eu hunain. Mae hyn yn bwysig iawn yn ystod proses yr Asesiad o Berfformiad Clinigol lle bydd gan yr aseswyr gyfle i adolygu canlyniadau'r asesiad ysgrifenedig blaenorol a allai amlygu meysydd o gryfderau a gwendidau. Bwriad y cam hwn yw sicrhau bod aseswyr yn ymwybodol o unrhyw faterion a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion, a allai fod angen eu harchwilio ymhellach yn ystod yr asesiad.

53. Dylai'r tîm asesu ymdrin â phob ymgeisydd newydd gyda meddwl agored a pheidio â thrafod yr ymgeisydd cyn yr asesiad, oherwydd gallai hyn arwain at aseswyr yn gwneud rhagdybiaethau cadarnhaol neu negyddol am berfformiad tebygol ymgeisydd penodol. Mae'n bosibl na fydd ymgeiswyr y rhagdybir eu bod yn perfformio'n wael yn y clinig yn cael digon o sylw na chyfle i brofi fel arall, tra bod rhagdybiaethau cadarnhaol am ymgeiswyr yn gallu golygu nad yw aseswyr yn samplu eu gwybodaeth, eu sgiliau na'u rhesymeg sylfaenol yn ddigonol.

## Perfformiad 'ar y dydd'

54. Mae'n werth crybwyll bod ymgeiswyr sydd wedi perfformio'n weddol neu'n wael yn gyson yn y gorffennol yn gallu perfformio'n rhagorol 'ar y dydd'. I'r gwrthwyneb, gall ymgeiswyr sy'n perfformio'n dda yn gyson wrth ymarfer berfformio'n waeth yn ystod yr asesiad. Mae angen i aseswyr fod yn ymwybodol bod ymgeiswyr 'da' yn hunan-feirniadol iawn weithiau a'u bod yn gallu bod yn orbryderus a pherfformio'n wael. Bydd yr ymgeiswyr hyn yn fwy pryderus byth os yw aseswyr yn gofyn cwestiynau rhy heriol yn rhy gynnar.

55. Hefyd, mae angen i aseswyr fod yn ymwybodol y gallai rhai ymgeiswyr roi ymatebion arwynebol i gwestiynau, a bod angen herio'r ymatebion hyn er mwyn canfod eu rhesymu clinigol sylfaenol.

## Risg

56. Os yw asesydd yn credu bod ymgeisydd yn peri risg i'w glaf ar unrhyw adeg, dylid gofyn i'r ymgeisydd adael yr ystafell i drafod y mater. Os yw aseswyr yn teimlo nad yw ymgeisydd yn gallu ymdopi â'r claf a'r sefyllfa benodol, efallai y bydd angen atal yr asesiad a gofyn i gynrychiolydd staff y Cyngor gysylltu â rheolwyr y clinig i ddod o hyd i rywun arall i gwblhau'r ymgynghoriad.

## Gwneud penderfyniadau

57. Mae angen i aseswyr wneud penderfyniadau teg a gofalus. Rhaid gwerthfawrogi cymhlethdod y broses ymarfer clinigol a sicrhau sail resymegol dda ar gyfer y penderfyniadau hyn. Mae angen ystyried pwysoli a chydbwyso agweddau gwahanol ar y broses perfformiad clinigol. Mae angen i aseswyr edrych ar y perfformiad cyffredinol a pheidio â chael eu dylanwadu'n ormodol gan feysydd perfformiad da neu wael penodol, yn enwedig os yw hyn yn ymwneud â hoff feysydd pwnc yr asesydd.

58. Ni ddylai aseswyr farnu ymgeiswyr yn ormodol yn ôl yr hyn y byddent yn ei wneud eu hunain, gan y bydd ymgeiswyr wedi cael mewnbwn gan lawer o ffynonellau gwahanol yn ystod eu hyfforddiant a'u profiad o ymarfer. Y peth pwysig yw bod gan yr ymgeisydd sail resymegol dros yr hyn y mae'n ei wneud a'i gasgliadau ar y diwedd.

59. Dylai aseswyr fod yn ofalus i beidio â rhoi adborth uniongyrchol i ymgeiswyr ar ddiwrnod yr asesiad a allai awgrymu canlyniad eu hasesiad.

## Ysgrifennu adroddiadau

60. Bydd y cymedrolwr yn llunio adroddiad ar gyfer pob ymgeisydd ar ôl y cyfarfod cymedroli. Dylai hyn adlewyrchu gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* fel y dangosir gan ffurflen werthuso'r aseswyr (Atodiad 2) ar gyfer pob claf sydd wedi cael ei weld. Dylai'r adroddiad gael ei gwblhau a'i lofnodi gan y tîm asesu cyfan. Dylai'r adroddiad adlewyrchu canlyniad y cyfarfod cymedroli a chynnwys y manylion penodol canlynol:
    - A yw'r ymgeisydd wedi llwyddo neu wedi methu, a'r rhesymau am fethu, os yw hynny'n berthnasol
    - Adborth i'r ymgeisydd ar gryfderau/ymarfer da a meysydd i'w datblygu a allai fod yn sylfaen i ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y dyfodol.

Mae templed yr adroddiad ar gael yn Atodiad 3.

# Atodiad 1 Rhestr Wirio Safonau Ymarfer Osteopathig

| SAFONAU | RHESTR WIRIO |
|---|---|
| **A1 Rhaid i chi wrando ar gleifion a pharchu eu hunigoliaeth, eu pryderon a'u dewisiadau. Rhaid i chi fod yn gwrtais ac ystyriol gyda chleifion a'u trin ag urddas a chwrteisi.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn cyfathrebu'n effeithiol, gan ystyried signalau dieiriau sy'n deillio o iaith corff neu oslef llais claf?<br>➢ Yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion neu werthoedd penodol cleifion mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd, diwylliant, crefydd, cred, cyfeiriadedd rhywiol, ffordd o fyw, oedran, statws cymdeithasol, iaith, anabledd corfforol neu feddyliol? |
| **A2 Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chleifion, gan addasu eich dull cyfathrebu er mwyn ystyried eu hanghenion penodol, a chynorthwyo cleifion i gyfleu i chi beth sy'n bwysig iddyn nhw.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn cynnwys y claf yn y broses o gynllunio triniaeth a rheoli?<br>➢ Yn dangos sensitifrwydd i anghenion penodol cleifion, a chyfathrebu'n effeithiol, gan ystyried yr anghenion hyn? |
| **A3 Rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion mewn ffordd sy'n ddealladwy iddynt.** | A yw'r ymgeisydd yn hysbysu'r claf:<br>➢ Am beth i'w ddisgwyl yn ymarferol gan yr ymgeisydd fel osteopath?<br>➢ Am unrhyw risgiau perthnasol neu sylweddol sy'n gysylltiedig ag unrhyw gamau clinigol arfaethedig sy'n berthnasol i sefyllfa ac anghenion y claf? |
| **A4 Rhaid i chi gael caniatâd dilys ar gyfer pob agwedd ar y gwaith archwilio a thriniaeth a chofnodi hyn fel y bo'n briodol.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn dangos ei fod wedi cael caniatâd dilys i archwilio a thrin y claf, ac wedi cofnodi hyn yn briodol? |
| **A5 Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu amdanyn nhw eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn darparu gwybodaeth am effeithiau dewisiadau ffordd o fyw ar iechyd a llesiant, yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau am newidiadau ffordd o fyw lle bo hynny'n briodol, ac yn annog a chynorthwyo cleifion i ofyn am gymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill os oes angen? |

| | |
|---|---|
| **A6 Rhaid i chi barchu urddas a gwyleidd-dra eich cleifion.** | A yw'r ymgeisydd yn trin cleifion ag urddas a pharch, gan weithredu mewn ffordd sy'n sensitif i'w gofynion? Byddai hyn yn cynnwys:<br>➢ Rhoi cyfle i'r claf wisgo a dadwisgo heb gael ei weld, oni bai bod hyn yn cael ei drafod gyda'r claf a bod ei ganiatâd wedi'i sicrhau.<br>➢ Rhoi dewis i gleifion orchuddio rhannau o'u cyrff nad oes angen eu dangos yn ystod archwiliad neu driniaeth.<br>➢ Gofyn i gleifion addasu neu dynnu eitemau o ddillad eu hunain os oes angen gwneud hyn yn ystod archwiliad neu driniaeth. |
| **B1 Rhaid i chi feddu ar wybodaeth a sgiliau digonol a phriodol, a gallu eu defnyddio, er mwyn cynorthwyo'ch gwaith fel osteopath.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn dangos dealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau osteopathig wrth wneud penderfyniadau clinigol?<br>➢ Yn dangos gwybodaeth am brosesau pathoffisiolegol sy'n ddigonol i lywio barn glinigol?<br>➢ Yn dangos dealltwriaeth o ddylanwadau seicolegol a chymdeithasol ar iechyd?<br>➢ Yn ystyried y claf yn ei gyfanrwydd yng nghyd-destun y mater iechyd dan sylw?<br>➢ Yn defnyddio teimlo â llaw fel dull gwerthuso, diagnostig, triniaeth ac ail-werthuso? |
| **B2 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd.** | A yw'r ymgeisydd:<br>➢ Yn dangos ei fod yn gallu defnyddio ei farn broffesiynol i asesu a oes ganddo'r hyfforddiant, y sgiliau a'r cymhwysedd i drin claf, ac i ofyn am gyngor pan fydd angen? |
| **C1 Rhaid i chi allu cynnal gwerthusiad osteopathig a darparu gofal osteopathig diogel, cymwys a phriodol ar gyfer eich cleifion.** | A yw'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn gallu<br>➢ Derbyn a chofnodi hanes achos y claf, gan addasu ei arddull gyfathrebu er mwyn ystyried anghenion a sensitifrwydd unigol y claf?<br>➢ Dewis a chwblhau asesiad clinigol priodol o'r claf, gan ystyried natur y mater clinigol a hanes yr achos?<br>➢ Llunio diagnosis gweithio neu sail resymegol briodol ar gyfer gofal ac esbonio hyn yn glir i'r claf?<br>➢ Datblygu a chymhwyso cynllun triniaeth a gofal priodol? Dylai hyn fod yn seiliedig ar:<br>• y diagnosis gweithio<br>• y dystiolaeth orau sydd ar gael<br>• gwerthoedd a dewisiadau'r claf<br>• ei sgiliau, profiad a chymhwysedd ei hun.<br>➢ Addasu dull gweithredu neu driniaeth osteopathig mewn ymateb i ganfyddiadau o archwiliad y claf?<br>➢ Gwerthuso'r ymateb wedi'r driniaeth a chyfiawnhau'r penderfyniad i barhau, addasu neu atal triniaeth osteopathig fel sy'n briodol?<br>➢ Adnabod adwaith anffafriol i driniaeth, a chymryd camau priodol? |

| | |
|---|---|
| | ➢ Monitro effeithiau'r gofal, a pharhau i'w adolygu?<br>➢ Lle'n briodol, atgyfeirio'r claf i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, gan ddilyn gweithdrefnau atgyfeirio priodol? |
| **C2 Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn cael eu cwblhau'n brydlon.** | A yw'r cofnodion cleifion yn cynnwys:<br>➢ Dyddiad yr ymgynghoriad?<br>➢ Manylion personol y claf?<br>➢ Unrhyw broblemau a symptomau a nodwyd gan y claf?<br>➢ Hanes meddygol, teuluol a chymdeithasol perthnasol?<br>➢ Y canfyddiadau clinigol, gan gynnwys canfyddiadau negyddol?<br>➢ Y wybodaeth a'r cyngor a ddarparwyd, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn.<br>➢ Diagnosis gweithio a chynllun triniaeth?<br>➢ Cofnodion caniatâd, gan gynnwys ffurflenni caniatâd?<br>➢ Yr archwiliad neu'r driniaeth a roddwyd, a'r canlyniadau?<br>➢ Unrhyw gysylltiad gyda'r claf, am y claf neu gan y claf?<br>➢ Copïau o unrhyw ohebiaeth, adroddiadau, canlyniadau profion ac ati yn ymwneud â'r claf? |
| **C6. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch swyddogaeth ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i helpu i wella iechyd a llesiant eich cleifion.** | ➢ Os yw'n briodol, dylai'r ymgeisydd allu trafod materion a phryderon iechyd y cyhoedd gyda chleifion mewn ffordd gytbwys, gan eu cyfeirio at adnoddau neu weithwyr proffesiynol eraill i'w helpu i wneud penderfyniadau. |
| **D10 Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i gleifion.** | A yw'r ymgeisydd<br>➢ Yn trin gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill â pharch, gan gydnabod eu cyfraniad posibl at ofalu am gleifion?<br>➢ Yn sicrhau bod unrhyw sylwadau am weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ddidwyll, yn ddilys ac yn gywir?<br>➢ Yn dilyn gweithdrefnau atgyfeirio priodol?<br>➢ Yn cydweithio â darparwyr gofal iechyd eraill i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion, os yw dulliau o'r fath yn briodol ac ar gael? |

# Mapio Asesiad o Berfformiad Clinigol i Safonau Ymarfer Osteopathig

| | Cyfathrebu Hanes yr Achos | Diagnosis Gwahaniaethol | Archwiliad Clinigol Gwerthusiad Osteopathig | Cynllun Rheoli Triniaeth |
|---|---|---|---|---|
| A1 | X | | X | X |
| A2 | X | | | X |
| A3 | X | | X | X |
| A4 | X | | X | X |
| A5 | X | | X | X |
| A6 | X | | | X |
| B1 | | X | X | x |
| B2 | | | | X |
| C1 | X | X | X | |
| C2 | X | X | | X |
| C6 | | | | X |
| D10 | | | | X |

# Atodiad 2 Ffurflen Werthuso

| | |
|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd:** | **Dyddiad:** |
| **Enw'r arholwr:** | **Enw'r cymedrolwr:** |

| **Crynodeb o'r achos** | |
|---|---|
| **Dylai'r ymgeisydd:** | |
| **Ddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol, gan addasu ei ddull gweithredu'n unol ag anghenion y claf. (A1, A2)** | |
| **Ymddwyn mewn ffordd foneddigaidd ac ystyriol, a thrin y claf ag urddas a chwrteisi. (A1, A6)** | |
| **Darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion, a derbyn caniatâd dilys i'w harchwilio a'u trin (gan gynnwys risgiau a manteision gwerthuso a thriniaeth) (A3, A4)** | |
| **Gweithio mewn partneriaeth â'r claf, gan barchu ei unigoliaeth, ei bryderon a'i ddewisiadau.** <br> **(A2, A5)** | |
| **Cymryd a chofnodi hanes achos y claf, gan gynnwys yr holl fanylion clinigol perthnasol a phriodol** <br> ***(Galwedigaeth, cyd-destun seicogymdeithasol, symptomau, datblygiad, ffactorau dwysáu a lliniaru, patrwm dyddiol, cwsg, hanes meddygol, hanes y teulu) (C1, C2)*** | |

| **Rhesymu Clinigol a diagnosis gwahaniaethol** |
|---|
| **Dylai'r ymgeisydd arddangos gwybodaeth briodol am strwythur a swyddogaeth ddynol, biomecaneg, prosesau pathoffisiolegol a seicogymdeithasol, ar lefel ddigonol i lunio barn glinigol gadarn. (B1, C1)** |

| **Diagnosisau gwahaniaethol arfaethedig:** | **Sail resymegol** |
|---|---|
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |
| **4** | |
| **5** | |

| **Archwiliad/gwerthusiad clinigol** | |
|---|---|
| **Dylai'r ymgeisydd:** | |
| **Ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion, a derbyn caniatâd dilys i'w harchwilio a'u trin. (A3, A4)** | |
| **Dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol, gan addasu eu dull gweithredu'n unol ag anghenion y claf. (A1)** | |
| **Ymddwyn mewn ffordd foneddigaidd ac ystyriol, a thrin y claf ag urddas a chwrteisi. (A1, A6)** | |
| **Cwblhau asesiad clinigol osteopathig priodol o'r claf, gan ystyried natur y mater clinigol a hanes yr achos.**<br><br>***Ystyried y canlynol lle bo'n briodol:***<br>***Archwiliad ystumiol***<br>• ***cerddediad***<br>• ***nodweddion esgyrnog***<br>• ***ansawdd meinwe***<br>• ***amrediad symudiad gweithredol***<br>• ***amrediad symudiad goddefol***<br>***Profion arbennig***<br>• ***orthopedig***<br>• ***niwrolegol***<br>• ***fasgwlaidd***<br>***Gwerthusiad osteopathig – trin â llaw, cysur cleifion, dilyniant effeithiol, cofnodi (C1, C2)*** | |

| **Diagnosis gweithio – cynllun rheoli/triniaeth** | |
|---|---|
| **Dylai'r ymgeisydd:** | |
| **Allu llunio diagnosis gweithio priodol sy'n ystyried natur mater clinigol y claf, hanes yr achos a'r canfyddiadau clinigol, a'u cyfleu'n effeithiol. (A1, B1, C1)** | |
| **Deall egwyddorion a chysyniadau osteopathig iechyd a chlefyd, a gallu cymhwyso'r wybodaeth hon wrth ofalu am y claf. (B1)** | |
| **Datblygu cynllun triniaeth a gofal priodol (os yn berthnasol), gan ystyried:**<br>- **y dystiolaeth orau sydd ar gael**<br>- **gwerthoedd a dewisiadau'r claf**<br>- **sgiliau, profiad a chymhwysedd yr ymgeisydd ei hun.**<br>**Dylid ystyried:**<br>**nodau'r driniaeth**<br>• **yn y tymor byr**<br>• **n y tymor hirach**<br>• **prognosis mwy hirdymor – rhesymeg/sail resymegol glinigol (C1)** | |
| **Gallu addasu technegau a dulliau gweithredu mewn ymateb i anghenion y claf/canfyddiadau clinigol. (C1)** | |
| **Darparu cyngor i gynorthwyo'r claf i wneud ymarferion (os yn berthnasol) a chyngor ar ffordd o fyw os yn briodol. (A5, C6)** | |
| **Os oes angen, nodi pan fydd angen cynghori yn** | |

| | |
|---|---|
| **erbyn ymyriad osteopathig neu dechnegau/dulliau gweithredu penodol, a/neu pan gall atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fod yn briodol, a gallu gwneud atgyfeiriad o'r fath. (B2, C1, D10)** | |

| **Unrhyw sylwadau eraill** |
|---|
| |

| **Gradd yr ymgeisydd (rhowch gylch):** | **Llwyddo** | **Methu** |
|---|---|---|

| **Meysydd cryfder** |
|---|
| |
| **Meysydd i'w datblygu** |
| |

| **Meysydd o wendid arwyddocaol/rheswm dros fethu** |
|---|
| |

# Atodiad 3 Adroddiad Canlyniad

Enw'r ymgeisydd: Dyddiad:

Argymhelliad: (Rhowch gylch) LLWYDDO METHU

**Crynodeb:**

1 Cryfderau a meysydd i'w datblygu a nodwyd gan yr *Holiadur Tystiolaeth Bellach o Ymarfer*
2 Deilliannau Asesiad o Berfformiad Clinigol

| Cryfderau/ymarfer da |
|---|
| |

| Meysydd i'w datblygu |
|---|
| |

| Rhesymau dros fethu (os yw'n berthnasol) |
|---|
| |

| | | |
|---|---|---|
| Asesydd 1: | Llofnod: | Dyddiad: |
| Asesydd 2: | Llofnod: | Dyddiad: |
| Cymedrolwr: | Llofnod: | Dyddiad: |

| Crynodeb Byr o Glaf 1 | Crynodeb Byr o Glaf 2 |
|---|---|
| | |

Noder: Wrth lunio eich adborth, dylech ystyried sut y dangosodd/na ddangosodd yr ymgeisydd ei fod wedi cyflawni'r agweddau perthnasol ar y Safonau Ymarfer Osteopathig canlynol. Cofiwch gynnwys enghreifftiau o'r Asesiad o Berfformiad Clinigol i gefnogi'ch casgliadau. Argymhellir y dylech gyfeirio at Restr Wirio'r Safonau Ymarfer Osteopathig a'r ddogfen fapio ategol i'ch cynorthwyo i gwblhau'r adroddiad hwn.

| **Safonau Ymarfer Osteopathig** | **Sylwadau** |
|---|---|
| **A: Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf** | |
| A1 Rhaid i chi wrando ar gleifion a pharchu eu hunigoliaeth, eu pryderon a'u dewisiadau. Rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd foneddigaidd ac ystyriol gyda chleifion a'u trin ag urddas a chwrteisi. | |
| A2 Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chleifion, gan addasu eich dull cyfathrebu er mwyn ystyried eu hanghenion penodol, a chynorthwyo cleifion i gyfleu i chi beth sy'n bwysig iddyn nhw. | |
| A3 Rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion mewn ffordd sy'n ddealladwy iddynt. | |
| A4 Rhaid i chi gael caniatâd dilys ar gyfer pob agwedd ar y gwaith archwilio a thriniaeth a chofnodi hyn fel y bo'n briodol. | |
| A5 Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu amdanyn nhw eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. | |
| A6 Rhaid i chi barchu urddas a gwyleidd-dra eich cleifion. | |

| **B: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad** | |
|---|---|
| B1 Rhaid i chi feddu ar wybodaeth a sgiliau digonol a phriodol, a gallu eu defnyddio, er mwyn cynorthwyo'ch gwaith fel osteopath. | |
| B2 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd. | |
| **C: Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer** | |
| C1 Rhaid i chi allu cynnal gwerthusiad osteopathig a darparu gofal osteopathig diogel, cymwys a phriodol ar gyfer eich cleifion. | |
| C2 Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn cael eu cwblhau'n brydlon. | |
| C6 Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch swyddogaeth ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i helpu i wella iechyd a llesiant eich cleifion. | |
| **D: Proffesiynoldeb** | |
| D1 Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i gleifion. | |